

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018 yn Festri Salem am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Lyn Mcfadden, Siân Anwyl Jones, Claire Roberts, Geraint Thomas ac Eryl Owain ynghyd â'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Dewi Jones ac Eifion Davies.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 11 Ionawr 2017 fel rhai cywir, Colin Jones yn cynnig ac Eryl Owain yn eilio.

Materion yn codi:

Toiledau: Nid yw'r camau cyfreithiol i drosglwyddo'r toiledau wedi eu cwblhau gan y Cyngor Sir. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir i bwysu arnynt i wneud hyn ac i'w hatgoffa bod angen arwyddion a rhwystrau i atal parcio o flaen y toiledau.

Materion ffyrdd: Cadarnhawyd bod Cyngor Sir Conwy wedi rhoi llinellau gwynion ar ochr y ffordd ger maes parcio Caffi *Conwy Falls*.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto ynglyn â'r angen angen sylw ar frys i'r ffordd i fyny o Groeffordd, Allt Pen-top a ffordd Hafod-y-rhedwydd.

Loriau trymion ger cyffordd y Felin Wlân: Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod a gafwyd ar 19 Ionawr gyda Guto Bebb, A.S. a chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Adran Priffyrdd Cyngor Sir Conwy. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn paratoi ac yn costio nifer o opsiynau ar gyfer cludo coed allan.

Marcio'r Cae Chwarae: Cyfarfod wedi ei drefnu ar 16 Mawrth.

Gwasanaeth Wardeniaid y Parc Cenedlaethol: Croesawyd adroddiad gan y Cadeirydd fod swyddi'r Wardeniaid Ardal yn ddiogel ar hyn o bryd.

Coed Nadolig: Oherwydd tywydd garw ni fu'n bosib cael coed Nadolig i Cwm na Phenmachno.

Materion Eraill:

Cyfraniadau Ariannol: Penderfynwyd ar y cyfraniadau canlynol: £500 ar gyfer maes parcio yng Nghwm Penmachno; £750 ar gyfer Apêl Bro Machno Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019; £150 i Glwb y Llan ar gyfer plannu blodau a chael potiau blodau; £100 i Ambiwylans Awyr Plant.

Ceisiadau Cynllunio: Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol a phenderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r un ohonynt:

Adeilad yn Llawr Ynys

Arwyddion ar gyfer Tŷ Mawr Wybrnant

Cynllun trydan dŵr Tŷ Mawr Wybrnant.

Llwybr rhwng Benar a Blaen Ddol: Y Clerc i gysylltu â Warden y Parc Cenedlaethol ynglŷn â'r angen am gamfa newydd ar y terfyn ac am agor ffos.

Cwynion am adeiladau: Derbyniwyd cwynion am gyflwr London House ac hen adeilad yr *Odd Fellows*. Bydd y clerc yn ymchwilio ymhellach i'r cwynion hyn.

Atgyweirio wal ger Gwesty'r Machno: Derbynwyd hysbysiad y bydd y ffordd rhwng y Machno a Llys Ifor ar gau. Y clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i sicrhau y bydd mynediad i gerddwyr yn bosib tra bydd y gwaith yn cael ei wneud.

Gohebiaeth:

Un Llais Cymru: Penderfynwyd ail-ymaelodi am dâl o £129.